28 Mawrth 2022

# Cytundeb Tenantiaeth - Campws Parc Singleton

**CADWCH Y CYTUNDEB TENANTIAETH HWN I GYFEIRIO ATO YN Y DYFODOL**

**Sylwer bod telerau eich tenantiaeth yn wahanol i'ch astudiaethau/cyrsiau a'u bod yn drefniad ar wahân.**

Mae'r Cytundeb Tenantiaeth hwn a'r Rheoliadau Preswylio yn rhwymo mewn cyfraith am hyd llawn y Cytundeb Tenantiaeth rhwng y tenant a enwir uchod a'r Gwasanaethau Preswyl, Prifysgol Abertawe, Parc Singleton, Abertawe SA2 8PG, Cymru, y Deyrnas Unedig. Mae'n rhaid i chi ddarllen a deall y cytundeb hwn cyn ei dderbyn. Mae'r Cytundeb Tenantiaeth hwn wedi'i reoli gan Gyfraith Cymru a Lloegr ac mae wedi'i lunio'n unol â honno.

## A. ENW'R TENANT -

ENW’R MYFYRIWR: **Mr ENW CYNTAF CYFENW**RHIF Y MYFYRIWR: **123456**

## B. DYDDIADAU'R DENANTIAETH

DYDDIAD DECHRAU**17 Medi 2021**DYDDIAD GORFFEN: **24 Mehefin 2022 - 10am**

## C. YSTAFELL:

SAFLE: **Campws Parc Singleton -** NEUADD: **PRESELI** -RHIF YR YSTAFELL: **PRE002**

MATH O YSTAFELL WELY: **Hunanarlwyo - Ystafell Sengl En Suite Ganolig - Traddodiadol -** ***03. DYRANNU OLAF***

Mae'r Landlord a'r Asiant yn cadw'r hawl i ddiwygio dyrannu'r ystafell cyn y Dyddiad Dechrau.

## D. FFIOEDD LLETY:

FFI WYTHNOSOL: **£145**

Y Ffioedd Llety ar gyfer yr Ystafell am gyfnod y Cytundeb Tenantiaeth yw **£5,800.00** ac mae angen eu talu erbyn y dyddiadau canlynol

| Yn ddyledus erbyn | Llety rhwng y dyddiadau hyn | Swm i'w dalu |
|---|---|---|
| **28/03/2022** | 17/09/2021 i 24/12/2021 | **£2,030.00** |
| **28/03/2022** | 24/12/2021 i 25/03/2022 | **£1,885.00** |

| | | |
|---|---|---|
| **05/05/2022** | 25/03/2022 i 24/06/2022 | **£1,885.00** |
| **30/12/1899** | **£0.00** | |

SAMPLE

## 1. GWYBODAETH BWYSIG AM DALU

1. Er mwyn derbyn y cynnig a chadarnhau eich lle, mae angen talu Blaendal Cadw Lle gwerth £50.00 ymhen 3 diwrnod ar ôl derbyn cynnig am lety. Caiff y Blaendal Cadw Lle ei ddidynnu o'ch taliad cyntaf ar gyfer eich Ffioedd Llety. Ni chaiff y Blaendal Cadw Lle ei ad-dalu os nad ydych yn cadarnhau'r Denantiaeth neu'n symud i mewn i'r Ystafell.
2. Anfonir cyfriflenni at e-bost y myfyriwr yn y Brifysgol, hyd yn oed pan fo Rhiant/Gwarcheidwad yn trefnu'r taliad. Rhaid derbyn taliadau ar gyfer y Ffioedd Llety erbyn y Dyddiadau Talu, a'r myfyriwr sy'n gyfrifol am wneud y taliad. Os nad oes modd i chi wneud taliad, cysylltwch â swyddfa lety'r Coleg cyn y Dyddiad Talu perthnasol.
3. Anfonir anfonebau at gyfrif e-bost y myfyriwr yn y Brifysgol 7 niwrnod cyn y Dyddiad Talu perthnasol, a byddant yn cynnwys Ffioedd Llety ac unrhyw dâl arall a godir i'r cyfrif.
4. Bydd yr anfoneb yn nodi a ydych chi wedi sefydlu Debyd Uniongyrchol. Os nad ydych wedi sefydlu Debyd Uniongyrchol, byddwch yn derbyn cyfarwyddiadau ynghylch sut i dalu'r Ffioedd Llety. Gwiriwch yr Anfoneb yn ofalus.
5. Bydd taliadau a dderbynnir yn hwyrach na phedwar diwrnod ar ddeg (14) ar ôl y Dyddiad Talu perthnasol yn dilyn y Polisi Rheoli Dyled.
6. Gweler y Rheoliadau Preswyl am fanylion llawn ein polisi Rheoli Dyled.
7. Ar ôl i'r denantiaeth ddechrau, byddwch yn derbyn yr holl gyfathrebu ynglŷn â'ch llety drwy eich e-bost myfyriwr: **123456@abertawe.ac.uk**

**Dyma denantiaeth am gyfnod penodol ac mae'r Landlord a'r Myfyriwr yn deall nad yw'n bosibl dod â'r Cytundeb Tenantiaeth hwn i ben cyn y Dyddiad Gorffen oni bai fod yr amgylchiadau yn Adran 12 yn berthnasol.**

## 2. ER EGLURDER

**At ddiben y Cytundeb Tenantiaeth, mae gan y termau canlynol yr ystyron canlynol:**

| | |
|---|---|
| **Ffioedd Llety** | ystyr hyn yw cyfanswm y rhent y mae'n rhaid i chi ei dalu ar gyfer Eich Tenantiaeth a nodir ym Mlwch C. |
| **Rhannau Cyffredin** | ystyr hyn yw mannau sy'n cael eu rhannu â phreswylwyr eraill yn y Fflat, gan gynnwys y gegin, neuaddau, yr ystafell ymolchi a mannau cyffredin eraill sydd ar gyfer y Fflat yn unig |
| **Cynnwys** | ystyr hyn yw Cynnwys y Breswylfa, Cynnwys y Fflat a Chynnwys yr Ystafell. |
| **Cyfnod y Contract** | ystyr hyn yw'r cyfnod o'r Dyddiad Dechrau gan gynnwys hwnnw, hyd at y Dyddiad Gorffen gan gynnwys hwnnw. |
| **Dyddiad Diwedd** | ystyr hyn yw diwrnod olaf Eich Tenantiaeth a nodir ym Mlwch A. |
| **Fflat** | ystyr hyn yw'r rhan o'r Breswylfa lle mae Eich Ystafell, a gallai gynnwys Rhannau Cyffredin y Fflat. Os yw Eich Ystafell yn hunangynhwysol (h.y. mae gennych eich cegin eich hun), bydd 'Fflat' yn cyfeirio at Eich Ystafell. |
| **Cynnwys y Fflat** | ystyr hyn yw'r holl ddodrefn, y gosodion a'r cyfarpar sydd wedi'u darparu i holl breswylwyr y Fflat eu defnyddio. |

SAMPLE

| | |
|---|---|
| **Yswiriant** | Ystyr hyn yw'r polisïau yswiriant y mae'r Landlord wedi'u caffael ar gyfer<br>(1) y risgiau y dylid yswirio yn eu herbyn yn nhyb y Coleg o ran y Breswylfa a'r Cynnwys<br>(2) er mwyn darparu yswiriant cyffredinol ar gyfer eiddo personol sy'n cael ei gadw yn yr Ystafell neu'r Breswylfa, fel y nodir yn y polisi. |
| **Cyfradd Llog** | Ystyr hyn yw 3% yn uwch na Chyfradd Sylfaenol Banc Lloegr sydd mewn grym o bryd i'w gilydd neu gyfradd arall y bydd y Coleg yn ei phennu yn unol â'r Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc) (Cymru) 2019. |
| **Landlord** | ystyr hyn yw'r landlord a enwir uchod ynghyd â'i swyddogion, ei gyflogeion, ei asiantwyr a'i gontractwyr ac unrhyw unigolyn arall y bydd y landlord yn ei awdurdodi. |
| **Tâl am Dalu'n Hwyr** | Ystyr hyn yw'r tâl (yn unol â'r Gyfradd Llog) y bydd y Landlord yn ei godi o ran yr holl Ffioedd Llety nas talwyd ymhen 14 diwrnod ar ôl y Dyddiad Talu perthnasol neu unrhyw ran o'r Ffioedd Llety hynny, yn unol â'r Gyfradd Llog. |
| **Dyddiadau Talu** | ystyr hyn yw'r dyddiadau pan fydd yn rhaid i chi dalu'r Asiant ar gyfer Eich Ystafell, a nodir ym Mlwch C. |
| **Atgyweiriadau** | Ystyr hyn yw goblygiadau'r Landlord o ran atgyweirio a chynnal a chadw yn unol ag Adran 11 Deddf Landlordiaid a Thenantiaid 1985 o ran:<br>(1) yr Ystafell, y Fflat a'r Preswylfeydd<br>(2) y Cynnwys<br>(3) y peirianwaith ar gyfer cyflenwi dŵr, trydan a chyfleustodau eraill sydd wedi'u darparu ar gyfer y Breswylfa |
| **Blaendal Cadw Lle** | ystyr hyn yw ffi na ellir ei had-dalu fel y nodir uchod, y mae'r Landlord yn ei chodi er mwyn i chi gadw Ystafell ar gyfer Dyddiad Dechrau eich Tenantiaeth. Pan fyddwch yn symud i mewn a bydd eich Tenantiaeth yn dechrau, caiff y ffi ei didynnu o daliad cyntaf eich Ffioedd Llety |
| **Llety** | ystyr hyn yw'r adeilad lle mae Eich Ystafell, a nodir ym Mlwch B. |
| **Rhannau Cyffredin Preswylfa** | ystyr hyn yw unrhyw fannau rydych yn eu rhannu â phreswylwyr eraill y breswylfa gan gynnwys ystafelloedd cyffredin, neuaddau, mannau awyr agored a mannau cyffredin eraill y mae preswylwyr yn eu rhannu. |
| **Cynnwys y Breswylfa** | ystyr hyn yw'r holl ddodrefn, gosodion a chyfarpar a ddarperir i'r holl breswylwyr eu defnyddio yn y Breswylfa. |
| **Rheoliadau'r Breswylfa** | ystyr hyn yw rheoliadau'r breswylfa a atodir fel atodlen i'r Cytundeb Tenantiaeth hwn ynghyd ag unrhyw reoliadau diwygiedig neu newydd y mae'r Landlord neu SRS yn eu cyflwyno'n rhesymol yn ystod y cytundeb hwn |
| **Ystafell** | ystyr hyn yw'r ystafell neu'r fflat hunangynhwysol a ddefnyddir gennych chi yn unig, a nodir ym Mlwch B. |

SAMPLE

| | |
|---|---|
| **Cynnwys Ystafell** | ystyr hyn yw'r dodrefn, y gosodion a'r cyfarpar sydd wedi'u darparu ar eich cyfer chi yn unig yn Eich Ystafell. |
| **Gwasanaethau** | ystyr hyn yw darparu gwasanaethau trydan, gwres, dŵr a chyfleustodau carthffosiaeth i'r Preswylfeydd |
| **SRS** | Gwasanaethau Preswylfeydd Myfyrwyr (SRS) yn y Brifysgol, sy'n isgontractwyr i Asiant y Breswylfa |
| **Dyddiad Dechrau** | ystyr hyn yw dyddiad dechrau Eich Tenantiaeth, a nodir ym Mlwch A. |
| **Myfyriwr** | ystyr hyn yw'r Tenant a nodir ym Mlwch A. |
| **Cyfnod y Denantiaeth** | ystyr hyn yw'r cyfnod penodol a nodir ym Mlwch A. |
| **Cytundeb Tenantiaeth** | ystyr hyn yw'r cytundeb hwn. |
| **Y Brifysgol** | Prifysgol Abertawe, Parc Singleton, Abertawe SA2 8PP |

## 3. CYFFREDINOL

1. Oni bai fod y cyd-destun yn gofyn yn wahanol, dylid ystyried geiriau unigol hefyd yn eiriau lluosog ac i'r gwrthwyneb.

SAMPLE

2. Mae cyfeirio at statud neu ddarpariaeth statudol yn cyfeirio hefyd at y rheini sydd wedi'u diwygio, eu hestyn neu'u hailddeddfu o bryd i'w gilydd.
3. Wrth gyfeirio at ysgrifennu, mae hynny'n cynnwys negeseuon e-bost hefyd.
4. Yn y cytundeb hwn, mae rhwymedigaethau i wneud rhywbeth neu i beidio â gwneud rhywbeth yn rhwymedigaeth i beidio â chaniatáu i rywun arall wneud y peth hwnnw.
4. Er mwyn bod yn gymwys i fyw yn y llety hwn, mae'n rhaid bod y myfyriwr wedi cofrestru fel myfyriwr amser llawn sy'n astudio yn y Brifysgol. Mae'r myfyriwr yn cydnabod bod y cytundeb hwn yn wahanol i'r ffordd y mae'r Brifysgol yn darparu cwrs academaidd y myfyriwr, ac nid yw'n amodol ar hynny.
5. Mae'r cytundeb tenantiaeth hwn yn gytundeb tenantiaeth fyrddaliadol sicr yn unol â'r ystyr yn Adran 19A Deddf Tai 1998.
6. Nid oes dim byd yn y Cytundeb Tenantiaeth hwn sy'n effeithio ar rymoedd disgyblu Prifysgol Abertawe a nodir ym Mholisi a Gweithdrefnau Disgyblu Preswylfeydd SRS.
7. Drwy hyn mae'r myfyriwr yn awdurdodi'r Landlord a'r Asiant i ddefnyddio ei ddata personol at bob diben cyfreithlon mewn cysylltiad â'r Cytundeb Tenantiaeth hwn (gan gynnwys adennill dyled, atal troseddu, dyrannu ystafelloedd neu os oes perygl difrifol o niwed i'r myfyriwr neu eraill neu eiddo'r Landlord) neu ar gyfer unrhyw faterion eraill yn unol â'r gyfraith.
8. Mewn cydymffurfiaeth ag Adran 48 Deddf Landlordiaid a Thenantiaid 1987, rhaid cyflwyno hysbysiadau o dan y Cytundeb Tenantiaeth hwn yn ysgrifenedig, ac mae cyfeiriad y Landlord ar gyfer cyflwyno hysbysiadau (gan gynnwys hysbysiadau mewn trafodion cyfreithiol) wedi'i nodi ar ddechrau'r cytundeb hwn.
9. Dylid anfon copi o unrhyw hysbysiad a gyflwynir i'r Landlord at SRS a'i e-bostio i SRS yn accommodation@abertawe.ac.uk. Nid yw'r Cytundeb Tenantiaeth hwn wedi'i fwriadu i gyflwyno unrhyw fudd i unrhyw un nad yw'n rhan ohono.

## 4. RHOI TENANTIAETH

1. Mae'r Landlord yn cytuno i roi'r Ystafell ac mae'r myfyriwr yn cytuno i'w chymryd am Gyfnod y Contract ar yr amodau a nodir yn y Cytundeb Tenantiaeth hwn.
2. Mae'r hawl gan y myfyriwr i ddefnyddio'r Cynnwys a'r Rhannau Cyffredin a Rhannau Cyffredin y Preswylfeydd.

## 5. GOBLYGIADAU'R MYFYRIWR

Mae'r myfyriwr yn cytuno â'r landlord ac SRS fel a ganlyn:
1. Cydymffurfio â Rheoliadau'r Breswylfa.
2. Rhoi gwybod i'r Coleg am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl.
3. Gofalu am yr allweddi a phob ddyfais fynediad arall ar gyfer yr Ystafell, y Fflat a'r Breswylfa. Os bydd y myfyriwr yn methu gwneud hynny, bydd y myfyriwr yn gyfrifol am y costau rhesymol a godir i'w hamnewid.

## 6. ARIANNOL

1. Talu'r Ffioedd Llety ar y Dyddiadau Talu neu cyn hynny heb unrhyw ostyngiad neu wrth-gyfrif.
2. Rhaid talu'r Ffioedd Llety i'r Asiant, yn unol â Rheoliadau'r Preswylfeydd.
3. Talu unrhyw Ddirwy am Dalu'n Hwyr i'r Asiant ar gais os bydd heb ei dalu am gyfnod o 14 diwrnod neu fwy.
4. Talu'r holl daliadau, costau a symiau sy'n ddyledus yn briodol yn unol â'r cytundeb hwn ac yn unol â'r Polisi Taliadau sy'n rhan o Reoliadau'r Preswylfeydd gan gynnwys talu costau'r Landlord neu'r Asiant a achoswyd yn rhesymol wrth orfodi rhwymedigaethau'r myfyriwr neu'r costau a geir o ganlyniad i dorri'r rhwymedigaethau hynny.
5. Bydd y myfyriwr yn torri'r cytundeb hwn os bydd yn methu talu'r Ffioedd Llety neu symiau eraill sy'n ddyledus yn unol â'r cytundeb hwn a bydd hawl gan y Landlord i ddefnyddio darpariaethau statudol Deddf Tai 1988 i adennill

SAMPLE

meddiant o'r Ystafell neu weithredu'n gyfreithiol er mwyn adennill y Ffioedd Llety sydd heb eu talu neu symiau eraill sy'n ddyledus.

6. Bydd y Landlord yn ceisio adennill ei gostau a'i dreuliau gan y myfyriwr (gan gynnwys costau a threuliau'r Asiant ar ei ran) mewn cysylltiad ag unrhyw drafodion cyfreithiol.

SAMPLE

## 7. ADRODD

1. Wrth gyrraedd yr Ystafell, rhoi gwybod i'r Landlord drwy'r rhestr eiddo ar-lein am unrhyw bryderon o ran yr Ystafell neu Gynnwys yr Ystafell ymhen 7 niwrnod.
2. Rhoi gwybod i SRS am unrhyw ddiffyg, difrod neu angen atgyweirio neu fethiant gan y Gwasanaethau neu o ran unrhyw beth y mae'n ofynnol i'r Landlord ei atgyweirio yn unol â thelerau'r Cytundeb Tenantiaeth hwn cyn gynted ag y bo'n ymarferol ac, mewn unrhyw achos, ymhen 24 awr ar ôl cael gwybod amdano.
3. Caniatáu i'r Landlord ac SRS (ar y cyd â'u hasiantwyr a'u contractwyr) ar amserau rhesymol, ar ôl rhoi 24 awr o rybudd yn ysgrifenedig, fynd i mewn i'r ystafell at ddiben ymweld, archwilio, a gwneud gwaith cynnal a chadw neu drwsio (nid oes angen rhoi rhybudd mewn argyfwng neu pan fo'r angen am waith drwsio wedi'i hysbysu i ni gan y myfyriwr).
4. Bydd y myfyriwr yn gyfrifol am unrhyw ffi neu draul am alwadau y mae'n rhaid i'r Landlord neu'r Asiant eu talu o ganlyniad i fethu caniatáu i gontractwr gynnal gwaith pan fo trefniadau rhesymol wedi'u gwneud.

## 8. LLETY

1. Peidio â defnyddio'r Ystafell at unrhyw ddiben heblaw ystafell wely astudio.
2. Peidio â defnyddio'r Ystafell neu unrhyw ran o'r Breswylfa at ddiben gweithredu busnes.
3. Cadw'r Ystafell yn lân ac yn daclus.
4. Cadw'r Cynnwys ac (ynghyd â myfyrwyr eraill) y Rhannau Cyffredin a Rhannau Cyffredin y Preswylfeydd mewn cyflwr glân, taclus a diogel ac yn rhydd o rwystrau.
5. Talu am Gynnwys sydd wedi'i ddifrodi neu'i waredu yn unol â Rheoliadau'r Preswylfeydd.
6. Peidio â dod â dodrefn ychwanegol i'r Ystafell, y Fflat neu'r Breswylfa, a chydymffurfio â Rheoliadau'r Preswylfeydd o ran unrhyw gyfarpar y mae'n dod ag ef i'r Ystafell neu'r Fflat.
7. Peidio â rhannu, isosod neu drosglwyddo meddiannaeth o'r Ystafell i unigolyn arall. Mae'n rhaid i'r myfyriwr gael caniatâd SRS yn ysgrifenedig os bydd am gyfnewid ystafell â myfyriwr arall, ac mae'n rhaid iddo gael y caniatâd hwnnw cyn newid ystafelloedd.
8. Rhoi gwybod i SRS am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau cyn gynted â phosibl o ran unrhyw faterion a allai effeithio ar y cytundeb tenantiaeth hwn gan gynnwys gadael y Preswylfeydd, tynnu'n ôl o'r Brifysgol neu ohirio ei astudiaethau.
9. Mae'r Tenant yn cytuno i ganiatáu i'r Landlord neu SRS ddod i mewn i'r Ystafell at ddibenion ei dangos i ddarpar denantiaid, ar unrhyw amser rhesymol, trwy drefnu ymlaen llaw.
10. Peidio â pharcio cerbyd modur o unrhyw fath (gan gynnwys cerbydau sydd wedi'u pweru'n drydanol) ar Gampws y Bae.

**YMWELWYR**

Peidio â chaniatáu i ymwelwyr aros yn yr Ystafell neu'r Fflat neu'r Preswylfeydd ac eithrio:-

11. Gall ymwelwyr (18 oed neu'n hŷn) aros yn yr Ystafell am **gyfanswm o 2 noson ar un adeg** ac ar **3 achlysur neu lai bob tymor academaidd**.
12. Yn achos myfyrwyr sy'n byw mewn llety un rhyw, dylai ymwelwyr sy'n aros dros nos fod yr **un rhyw** â nhw.
13. Peidio â chaniatáu i bobl ifanc dan 18 oed aros yn yr ystafell neu unrhyw ran o'r Breswylfa.
14. Mae'r myfyriwr yn gyfrifol am ymddygiad pob ymwelydd/ymwelwyr a wahoddir neu fel arall.

## 9. CYFFREDINOL

SAMPLE

1. Peidio â newid, achosi, gwneud neu ychwanegu at unrhyw beth a allai achos difrod i unrhyw ran o'r Breswylfa, y Fflat, yr Ystafell, Rhannau Cyffredin a Chynnwys, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:-
2. Ymyrryd ag offer diffodd tân, peirianwaith trydanol neu beiriannau. Achosi perygl o dân neu beryglu iechyd a diogelwch eraill mewn unrhyw fodd.
3. Rhoi unrhyw beth sy'n niweidiol neu sy'n debygol o greu rhwystr mewn pibell neu ddraen.
4. Tynnu unrhyw beth oddi ar, gosod unrhyw beth ar, newid, niweidio neu geisio trwsio'r strwythur neu'r gorffeniad addurnol.
5. Gweithredu mewn ffordd sy'n annilysu Yswiriant.

SAMPLE

6. Peidio ag ymddwyn mewn ffordd sy'n achosi, neu a allai achosi, niwsans, sarhad, ymyrraeth, aflonyddu neu helynt parhaus i bobl eraill gan gynnwys myfyrwyr eraill yn y Breswylfa, y Landlord, SRS, eu hasiantwyr neu'u contractwyr neu unrhyw berson arall sydd yn y Breswylfa yn gyfreithlon.
7. Peidio â dod ag anifail, aderyn, pysgodyn nag ymlusgiad i'r Ystafell, y Fflat neu'r Breswylfa ac eithrio cŵn cymorth a ganiateir ar yr amod eich bod yn rhoi gwybod i SRS am eu presenoldeb.
8. Peidio ag yfed alcohol os yw'r Ystafell mewn Preswylfa neu ardal o Breswylfa sydd wedi'i neilltuo'n 'ddi-alcohol'.
9. Peidio â chwarae cerddoriaeth uchel o unrhyw ddyfais neu greu sŵn y gellir ei glywed y tu allan i'r Ystafell neu'r Fflat rhwng 11:00pm ac 8:00am.
10. Cydymffurfio â holl ofynion rhesymol y Landlord a'r Asiant o ran defnyddio'r Ystafell a'r Fflat.
11. Os bydd y myfyriwr yn torri'r amodau hyn, gallai arwain at y Landlord a/neu'r Asiant yn cymryd camau i eithrio'r myfyriwr o'r Ystafell, y Fflat neu'r Breswylfa neu'n ceisio cael gorchymyn adennill meddiant gan y Llys er mwyn dod â'r cytundeb tenantiaeth hwn i ben. Os bydd hynny'n digwydd, bydd y Landlord a/neu'r Asiant yn ceisio adennill y costau a godwyd gan y myfyriwr.

## 10. AMODAU ERAILL

1. Mae'r myfyriwr yn gyfrifol am ymddygiad pob ymwelydd/ymwelwyr a wahoddir neu fel arall.
2. Mae'n rhaid i'r myfyriwr gydymffurfio â'r holl reoliadau a gyflwynir gan y Landlord a/neu SRS mewn perthynas â materion diogelwch tân a goblygiadau iechyd a diogelwch eraill gan gynnwys yr holl reoliadau ac unrhyw reoliadau sy'n ofynnol er mwyn cydymffurfio â chyfreithiau, rheoliadau neu arweiniad a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru, y Llywodraeth yn San Steffan, awdurdodau lleol neu gyrff statudol eraill sy'n ymwneud â materion iechyd cyhoeddus.
3. Cydweithio'n llawn â'r Landlord ac SRS wrth gydymffurfio â'r holl gyfreithiau, statudau a rheoliadau sy'n berthnasol i'r Landlord, yr Asiant a'r Myfyriwr o ran defnyddio a meddiannu ar yr Ystafell, y Fflat neu'r Breswylfa.
4. Mae hawl gan y Landlord neu SRS, ar gost i'r myfyriwr, symud o unrhyw ran o'r Breswylfa unrhyw eitem, gwrthrych neu gyfarpar sy'n creu rhwystr, neu sy'n achosi perygl tân neu berygl iechyd a diogelwch. Caiff y fath eitem, ar gais (oni bai ei fod yn ddarfodus), ei ddychwelyd i'r myfyriwr ar ddiwedd y Cytundeb Tenantiaeth.

## 11. RHWYMEDIGAETHAU'R LANDLORD

1. Ar ran y Landlord, mae SRS yn gweithredu rhai o'i rwymedigaethau dan y Cytundeb Tenantiaeth hwn. Mae'r Landlord yn cytuno â'r myfyriwr i:-
    a. Ddarparu'r Gwasanaethau
    b. Cynnal yr Atgyweiriadau.
2. Nid yw'r Landlord na'r Asiant yn atebol i drwsio unrhyw ddifrod a achosir gan y myfyriwr oni bai bod y myfyriwr yn talu'r gost (bydd unrhyw daliadau ychwanegol ar y polisi'n cael eu talu gan y myfyriwr).
3. Rhoi o leiaf 24 awr o rybudd i'r myfyriwr cyn mynd i mewn i'r Ystafell ac eithrio mewn argyfwng, neu yn achos gwaith trwsio neu lanhau a hysbyswyd.
4. Peidio â thorri ar draws meddiannaeth y myfyriwr o'r Ystafell yn fwy na sy'n rhesymol angenrheidiol er mwyn ei alluogi i gydymffurfio â'i rwymedigaeth ef a rhwymedigaethau'r Landlord.
5. Darparu'r Yswiriant.
6. Mae'r Landlord, yr Asiant ac SRS yn cytuno i beidio â datgelu gwybodaeth bersonol a geir gan y myfyriwr, ac eithrio pan fo'r Cytundeb Tenantiaeth hwn neu Reoliadau'r Preswylfeydd yn caniatáu hynny neu'n unol â'r gyfraith pan fo perygl difrifol o niwed i'r myfyriwr, i bobl eraill neu i'r Breswylfa neu eiddo arall y mae'r Landlord yn berchen arno. Ac eithrio pan fo'r myfyriwr wedi rhoi ei ganiatâd ar y ffurflen manylion cyswllt mewn Argyfwng wrth gyflwyno cais.
7. Bydd yr Asiant yn darparu gweithdrefn gwyno lawn ynghylch llety, gwaith cynnal a chadw, a darparu gwasanaethau.
8. Ceir rhagor o fanylion gan y Landlord.

SAMPLE

## 12. DOD Â'R DENANTIAETH I BEN YN GYNNAR

1. Mae'r Cytundeb Tenantiaeth yn denantiaeth tymor penodol na ellir dod ag ef i ben cyn y Dyddiad Gorffen ac mae'r myfyriwr yn atebol am dalu'r Ffioedd Llety am Gyfnod cyfan y Denantiaeth oni bai fod y myfyriwr yn tynnu'n ôl o'i astudiaethau neu'n eu gohirio.
2. Bydd hawl gan y myfyriwr i gael ei ryddhau'n gynnar o'r Cytundeb Tenantiaeth â chydsyniad ysgrifenedig SRS o bydd un o'r amodau canlynol yn berthnasol:-

   a. Nid yw'r myfyriwr yn dechrau ar ei gwrs yn y Brifysgol.
   b. Mae'r myfyriwr yn cael ei ohirio o astudio yn y Brifysgol.
   c. Mae'r myfyriwr yn tynnu'n ôl o astudio yn y Brifysgol

ac mae wedi:-

   a. Cyflwyno i'r Brifysgol Ffurflen Gais am Ryddhau o Lety.
   b. Derbyn cadarnhad gan y Gofrestrfa Academaidd ei fod yn Tynnu'n Ôl o'i Astudiaethau neu'n eu Gohirio.
   c. Bydd gan y myfyriwr sy'n tynnu'n ôl o'r Brifysgol 6 wythnos i adael ei lety ar ôl cyflwyno'r ffurflen. Bydd hyn yn ei alluogi i aros yn y llety er mwyn trefnu cynlluniau ar gyfer llety/teithio yn y dyfodol.

## 13. DOD Â'R CYTUNDEB TENANTIAETH I BEN

1. Gall y Landlord ddod â'r Cytundeb Tenantiaeth hwn i ben drwy gyflwyno Hysbysiad yn unol ag Adran 8 Deddf Tai 1988 gan ddibynnu ar unrhyw un o'r seiliau a nodir yn Atodlen 2 y Ddeddf honno. Mae'n rhaid i'r Landlord gael Gorchymyn Llys cyn iddo allu adennill meddiant o'r Ystafell.

## 14. DIWEDD Y DENANTIAETH

1. Mae'n rhaid i bob myfyriwr ddychwelyd yr Ystafell a Chynnwys yr Ystafell i SRS mewn cyflwr glân a thaclus.
2. Mae'n rhaid i'r myfyriwr waredu ei holl eiddo personol o'r Ystafell.
3. Mae'n rhaid i'r myfyriwr sicrhau bod yr holl oergelloedd a chypyrddau'n lân a bod yr holl fwyd darfodus wedi'i waredu'n gywir.
4. Os bydd y myfyriwr yn gadael ei eiddo yn yr Ystafell neu unrhyw ran o'r Preswylfeydd ar ôl diwedd y cytundeb hwn, mae hawl gan y Landlord i'w trin fel petai'r myfyriwr wedi rhoi'r gorau iddynt a'i fod yn cytuno y gall y Landlord eu symud a'u gwaredu. Mae'r myfyriwr yn cytuno nad oes rhaid i'r Landlord storio'r nwyddau am gyfnod cyn iddo eu gwaredu.

## 15. ER MWYN DERBYN Y CYTUNDEB TENANTIAETH HWN A'R AMODAU SYDD YNDDO

1. Cewch dderbyn y cynnig ar-lein drwy fewngofnodi i'ch cyfrif llety; byddwch yn cytuno ar amodau a thelerau'r Denantiaeth hon.
2. Mae unrhyw fyfyriwr sy'n derbyn y cynnig am le yn y breswylfa yn gwneud hynny gyda'r ddealltwriaeth bod yr ystafell yn cael ei chynnig a'i derbyn am gyfnod llawn y Cytundeb Tenantiaeth. Ac eithrio amgylchiadau eithriadol, nid yw'n bosib rhyddhau myfyriwr o'r cytundeb yn ystod y flwyddyn.
3. "Drwy ychwanegu eich dyddiad geni a'ch rhif adnabod myfyriwr / Llofnod isod, rydych yn cytuno i'r ymrwymiadau a'r telerau a osodir drwy hyn a byddwch yn gwneud cytundeb y gellir ei orfodi'n gyfreithiol".

SAMPLE

***Mae angen cwblhau'r adran hon OND os nad oes modd i chi dderbyn y contact ar-lein ar gyfer*** **PRE002**

Llofnod y Myfyriwr:_______________________________________Rhif y Myfyriwr:____**123456**

Dyddiad Geni'r Myfyriwr: (dd/mm/bbbb)_____________________Dyddiad:________________________

SAMPLE

Llofnodwyd:____________________________________________Ar ran y Landlord

Llofnodwyd:____________________________________________Ar ran SRS

SAMPLE